Cyngor Bwrdeistref Sirol
Blaenau Gwent
County Borough Council

Teitl: **Gweithiwr Cymorth x2**

Lleoliad: **Gweithiwr Ystwyth – Vitcc/Anvil Court**

Cyfarwyddiaeth: **Gwasanaethau Cymdeithasol**

Swydd Rhif:

Cyflog: **Graddfa 6 (£28,900 - £32,909)**

Oriau: **37 awr**

Contract: **5 a 9 mis – llanw dros gyfnod mamolaeth**

Crynodeb Swydd

Ydych chi'n edrych am swydd werth chweil? Ydych chi'n edrych am swydd yn gweithio gydag oedolion a'u galluogi i gynnal eu hannibyniaeth a hybu eu llesiant yn unol ag egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Yna gallai'r cyfle cyffrous hwn fod ar eich cyfer chi!

Gellir hefyd gynnig y swydd fel cyfle secondiad. Cyn gwneud cais am hyn fel cyfle secondiad, dylai ymgeiswyr ofyn i'w Rheolwr Llinell am gymeradwyaeth i gael eu rhyddhau o'u swydd bresennol. Dim ond i staff parhaol yr Awdurdod mae cyfleoedd secondiad ar gael.

Hysbyseb Lawn

Rydym yn edrych am unigolyn brwdfrydig gyda chymhelliant i weithio gydag oedolion gydag ystod o wahanol anghenion yn defnyddio dull gweithredu seiliedig ar gryfderau i hyrwyddo llesiant unigolion a'u gofalwyr. Mae'r gweithiwr cymorth yn gyfrifol am asesu a chefnogi'r deilliannau a ddynodwyd i alluogi unigolion i fyw bywydau bodlon ac ystyrlon. Bydd y swydd yn cynnwys yr angen i gydweithio gyda gweithwyr proffesiynol o ystod o wasanaethau.

Cynhelir sgrinio cyn-cyflogaeth trwyadl yn ystod y broses recriwtio. bydd angen i ddeiliad y swydd gwblhau cais am ddatgeliad y Gwasanaeth Dategelu a Gwahardd.

Dyddiad Cau: **Dydd Iau 16 Mawrth 12:00am, canol-nos**

Dyddiad Cyfweliadau: **I'w gadarnhau**